

# CROESO I'CH TYMOR

## 2022/23

THIS IS OUR GAME, THIS IS WELSH RUGBY

**DYMA'N GÊM NI, DYMA RYGBI CYMREIG**

# RHAGAIR GAN GERAINT JOHN CYFARWYDDWR CYMUNEDOL RYGBI CYMRU

## Croeso i Dymor 22/23, ein Tymor llawn cyntaf ers y Pandemig.

Yn gyntaf, hoffwn estyn fy niolch i bob un ohonoch sydd wedi parhau i wirfoddoli mewn swyddogaethau amrywiol o dan amgylchiadau anodd. Fe'ch gwerthfawrogir. Heb eich ymdrechion parhaus chi, ni fyddai ein rygbi ar lawr gwlad mor llwyddiannus. Rydych yn rhan annatod o'r darlun cyfan. Gobeithio y bydd y Tymor hwn yn parhau yn y ffordd y mae'n dechrau a byddwn yn gallu cymryd rhan mewn Tymor llawn, o lawr gwlad a thrwy ein llwybr cymunedol yn y gêm radd oedran a gwrywaidd a benywaidd.

Fy nod i a'r adran yw helpu a rhoi cymaint o gefnogaeth â phosibl i chi ym mhob maes ar y cae ac oddi arno. Byddwn yn parhau i wneud ein gêm yn ddymunol, yn ddeniadol, yn hwyliog ac yn ddiogel i'n holl chwaraewyr, hyfforddwyr, dyfarnwyr a gwirfoddolwyr. Gêm y mae pobl eisiau bod yn rhan ohoni a chymryd rhan ynddi a'i chefnogi. Helpwch ni i gynyddu cyfranogiad a chefnogi'r genhedlaeth nesaf.

## CHI YW:

- Y Bobl sy'n ganolog i'r clwb a'r gymuned sy'n creu rhywbeth arbennig sy'n galluogi chwaraewyr, hyfforddwyr, dyfarnwyr, a gwirfoddolwyr i ffynnu, a datblygu ymdeimlad o berthyn i fathodyn/crys y clwb.

Gyda hynny mewn golwg ac yn unol â'n strategaeth "Galluogi Rygbi i Ffynnu" rydym wedi gweld nifer o newidiadau yn yr Undeb gyda rhai o'r tîm yn gadael am feysydd newydd, rhai newidiadau swyddogaethau mewnol a rhai aelodau newydd yn ymuno â'r tîm a gobeithio y bydd y ddogfen fer hon yn eich cynorthwyo drwy roi gwybodaeth ichi ynghylch â phwy y dylech gysylltu â nhw drwy gydol y Tymor.

Rydym yn bwriadu lansio ein Strategaeth Gymunedol newydd yn fuan a bydd ein timau yn ymweld â phob cwr o Gymru i gefnogi cyfleusterau, chwarae'r gêm, cefnogi hyfforddwyr, chwaraewyr a gwirfoddolwyr, pawb sy'n rhan o'n llwybrau gwrywaidd a benywaidd a'n holl fformatau – "Crys i Bawb".

Yn olaf cyn i mi gloi hoffwn ofyn am eich cefnogaeth i sicrhau bod ein pobl yn mwynhau ein gêm wych ac yn cael hwyl ac yn cadw'n ddiogel. Gadewch i ni hyrwyddo ein gwerthoedd gwych o gyfeillgarwch, chwarae teg, a pharch i enwi ond ychydig - Ymddygiad Positif. Mae dyletswydd arnom i gyd i greu a chynnal amgylchedd diogel a chadarnhaol i bawb sy'n rhan o'r Gêm. Sicrhewch fod mesurau ar waith i sicrhau amgylchedd diogel a chroesawgar er mwyn i Swyddog y Gêm gyflawni'r dyletswyddau.

Gobeithio y bydd y ddogfen Croeso 22/23 hon yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i'ch cefnogi wrth i ni ddechrau'r Tymor nesaf hwn. Edrychaf ymlaen at eich gweld mewn gemau ac i ymweld â'ch clwb ac os oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod, cysylltwch â mi neu'r tîm cymunedol.

Os gweithiwn ni gyda'n gilydd gallwn gyflawni mwy. Gadewch i ni helpu a chefnogi ein gilydd wrth i ni groesawu ein tymor llawn cyntaf ers y Pandemig.

**Diolch, Geraint**

Cyfarwyddwr Cymunedol / Community Director
Undeb Rygbi Cymru / Welsh Rugby Union

# DATBLYGU CLYBIAU

**Ein Tîm Datblygu Clybiau yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau sy'n gysylltiedig â Datblygu Clybiau yng Nghymru sy'n eu galluogi nhw i dyfu a datblygu. Rydym yma hefyd i roi cymorth wrth i'n clybiau rygbi cymunedol lywio'u ffordd drwy'r argyfwng costau byw.**

Yn ddiweddar gwnaethom rai newidiadau strwythurol yn y tîm gan ychwanegu swyddogaeth newydd, Pennaeth Lleoedd i arwain y tîm.

Mae ein tîm profiadol yma i'ch arwain gan ddibynnu ar eich anghenion a'ch uchelgeisiau. Er mwyn sicrhau bod ein clybiau'n gweithredu'n llwyddiannus, rydym eisiau gweithio gyda Chlybiau i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau gofynnol ar gyfer gweithrediadau a byddwn yn cefnogi gwirfoddolwyr gyda chymorth i greu Cynlluniau Datblygu Clybiau.

Mae gennym Swyddogion Datblygu Clybiau wedi'u lleoli ledled Cymru. Gallwn gefnogi drwy gyfeirio at y cyllid grant mwyaf priodol, drwy gymorth gyda cheisiadau am gyllid a chynorthwyo timau gyda chyfleoedd i greu refeniw er mwyn sicrhau bod ein clybiau yn addas i'r diben ac yn gydnerth ar gyfer y dyfodol hir dymor.

Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ynghylch cyllid bob chwarter i sicrhau bod clybiau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am raglenni grant a chyllid newydd sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru.

Bydd Datblygu Cyfleusterau yn allweddol ar gyfer twf rygbi yng Nghymru ac rydym yn cydnabod bod mynediad at gyfleusterau o ansawdd da yn hanfodol ledled Cymru. Mae Undeb Rygbi Cymru yn rhan o'r Grwp Cydweithredu Cyfleusterau ochr yn ochr â Chymdeithas Bêl-droed Cymru a Hoci Cymru i osod arwynebau artiffisial yn strategol ledled y Wlad. Gallwn gefnogi clybiau gyda datblygu a chyflwyno ceisiadau i Grant Cyfleusterau URC ac i'r Rhaglen Gwella Caeau.

Mae ein Tîm Datblygu Clybiau yn arbenigwyr ar Gynllunio Cyfleusterau a gallant eich cynorthwyo i sicrhau bod eich clwb yn dod yn "Glwb y Dyfodol" sy'n diwallu anghenion amrywiol y cymunedau yng Nghymru.

Bydd y tîm yn cydlynu a chyflawni (lle bo'n briodol) cyfleoedd addysg a hyfforddiant yn y clwb ynghyd â chefnogaeth a chymorth i holl wirfoddolwyr y clwb mewn swyddogaethau oddi ar y cae.

Mae ein tîm yn arbenigwyr mewn cefnogi clybiau pan fydd awdurdodau lleol yn cysylltu â nhw ynghylch trosglwyddo asedau.

Rydym yn ffodus bod gennym fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd corfforaethol cenedlaethol ac rydym yn gallu hyrwyddo'r rheiny ar gyfer pob clwb sydd eisiau cymryd rhan.

Mae gennym olwg strategol ar bob awdurdod lleol ac rydym yn gallu cysylltu clybiau â phartneriaid eraill er mwyn hybu cydweithio a chyfleoedd.

Rydym wastad yn chwilio am wirfoddolwyr newydd yn ein gêm. Mae nifer o swyddogaethau ar gael a gellir darparu hyfforddiant llawn ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hyn.

I ddechrau sgwrs ar unrhyw un o'r eitemau uchod, anfonwch neges e-bost i'r tîm Datblygu Clybiau; ***clubdevelopment@wru.wales*** a bydd eich ymholiad yn cael ei gyfeirio at yr unigolyn mwyaf priodol i roi cymorth i chi.

# MENYWOD A MERCHED

**Mae'r gêm fenywaidd yng Nghymru wedi parhau i dyfu ers iddi ddychwelyd ar ôl y pandemig gyda'r llwybr i gyfranogiad yn gweld nifer fawr o fenywod ledled Cymru yn bwriadu ymuno ag allfeydd rygbi.**

Ar y cyfan, rydym wedi gweld twf o dros 50% yn y gêm o'i gymharu â'r ffigurau cofrestru cyn y pandemig. Mae Undeb Rygbi Cymru wedi buddsoddi mwy yn y gêm fenywaidd i gefnogi'r twf hwn a sicrhau bod ein timau yn parhau i dyfu.

Yn sgil y buddsoddiad hwn bu cynnydd mewn staff ymroddedig yn y gêm fenywaidd gymunedol o 3 newidiwr Gemau i 5 swyddog Rygbi ar gyfer y gêm fenywaidd. Mae'r cam hwn wedi cynyddu'r ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu gydag un swyddog wedi'i neilltuo ar gyfer rhanbarth rygbi.
Mae nifer o glybiau wedi mynegi eu diddordeb mewn sefydlu allfa fenywaidd yn eu clwb yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau twf diogel y gêm fenywaidd yng Nghymru mae gan Undeb Rygbi Cymru reoliadau sy'n sicrhau bod safon ofynnol yn cael ei chyrraedd cyn sefydlu unrhyw dîm benywaidd i chwarae'n gystadleuol neu ar gyfer hamdden. Gall clybiau sy'n dymuno cymryd rhan mewn rygbi benywaidd gysylltu â'r bobl ganlynol;

- Ymholiadau Cyffredinol: ***femalerugby@wru.wales***
- Arweinydd Cymuned Undeb Rygbi Cymru
  Gêm Fenywaidd – Joe Davies: ***jdavies@wru.wales***
- Y Scarlets – Cleo Hardy: ***chardy@wru.wales***
- RGC – Olivia Jenkins: ***ojenkins@wru.wales***
- Rygbi Caerdydd - Kira Philpott: ***kphilpott@wru.wales***
- Y Dreigiau – Ashleigh Collier: ***ashleigh.collier@wru.wales***
- Y Gweilch – Sarah Jones: ***sjones@wru.wales***



# CYNHWYSIANT

**Mae tîm Cynhwysiant URC yn gweithio'n bennaf o fewn y gêm gymunedol i sicrhau bod unrhyw un sydd eisiau chwarae rygbi, beth bynnag fo'r fformat, yn cael cyfle. Dywedwn fod crys i bawb a gwaith y tîm Cynhwysiant yw dod o hyd i'r un sy'n ffitio orau.**

Mae Undeb Rygbi Cymru dros y 5 mlynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar ddarparu profiadau rygbi cadarnhaol i bobl ag anableddau. Yr hyn y byddwn yn ei weld wrth symud ymlaen yw ymgyrch fwy cydlynus i ennyn diddordeb pobl o ardaloedd neu gymunedau nad ydynt yn draddodiadol yn rhai rygbi, i ddangos bod ein camp genedlaethol ar gyfer ein cenedl gyfan.

Mae tîm Cynhwysiant URC yn gweithio i ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Anabledd
- Lleiafrifoedd Ethnig
- LHDTQ+
- Ynysigrwydd Cymdeithasol
- Digartrefedd
- Iechyd Meddwl

Os hoffech ragor o wybodaeth am gynhwysiant yn eich ardal, cysylltwch â Rheolwr Cynhwysiant Cenedlaethol URC, Darren Carew, ***dcarew@wru.wales***





# POLISÏAU AC UNIONDEB

**Ein prif gyfrifoldeb fel Adran yw creu amgylcheddau diogel i alluogi rygbi i ffynnu ledled Cymru. Mae'n hanfodol fel clybiau eich bod yn cofrestru pob swyddogaeth ofynnol ar MyWRU. Y swyddogaethau y mae'n ofynnol eu cofrestru yw: Hyfforddwr, Dyfarnwr, Chwaraewr, Rheolwr Gweithrediadau'r Clwb, Rheolwr Tîm a Swyddog Cymorth Cyntaf.**

Rydym yn rhagweithiol wrth ddarparu rhaglen Addysg Atal Dopio ac Uniondeb (Stay Onside). Byddwn yn parhau i gyflwyno ein Cwrs Diogelu URC – Peidiwch â'i Daclo Ar Eich Pen Eich Hun. Byddwn yn gweithio gyda Rheolwyr Gweithrediadau'r Clwb i gynnal amgylcheddau diogel a chefnogi clybiau wrth greu gweithgareddau rygbi newydd. Mae gennym gyfrifoldebau eraill o ran cadw gwyliadwriaeth am anafiadau a phrotocolau diwrnod y gêm sy'n gysylltiedig â'n gwerthoedd a'n hymddygiadau.

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth o ran cymorth cyntaf a gwasanaethau meddygol gan gynnwys hyfforddiant pan fo angen.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n Swyddogion Diogelu Clybiau i sicrhau bod yr holl swyddogaethau mewn gweithgareddau a reoleiddir yn destun asesiad risg priodol gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Os oes gennych unrhyw ymholiadau drwy gydol y Tymor o safbwynt Polisïau ac Uniondeb, anfonwch neges e-bost i ***integrity@wru.wales***

# CYSTADLAETHAU

## Mae'r holl fanylion ynglyn â'r Cystadlaethau Ieuenctid, Benywaidd a Gwrywaidd, Rheolau a Rheoliadau ar gael yma:

*https://community.wru.wales/cy/llywodraethu/rheolau-a-rheoliadau/rheolau-a-rheoliadau-clybiau/*







# YSWIRIANT

## Ar gyfer pob ymholiad Yswiriant, rydym yn eich cyfeirio at ein Porth Yswiriant a lansiwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

***https://www.sports-insure.co.uk/client/wru/clubs/***

Mae cwestiynau cyffredin hefyd ar gael ar y porth hwn. Os oes gennych ragor o ymholiadau, cyfeiriwch bob ymholiad at AON.

# HYFFORDDIANT A DATBLYGU

**Bydd y tymor newydd yn cyflwyno datblygiadau cyffrous ar gyfer Hyfforddi ac Addysg wrth i gymorth ffurfiol, anffurfiol a digidol newydd gael eu sefydlu ar gyfer y gymuned rygbi.**

Ynghyd â 'Fframwaith Hyfforddwyr a Dyfarnwyr' a 'Fframwaith Addysgwyr URC' newydd a gynlluniwyd i gynyddu'r cyfleoedd sgiliau i gyfranogwyr, bydd pwyslais hefyd ar becynnau addysg wedi'u seilio ar y cwricwlwm newydd drwy ein partneriaeth â Llywodraeth Cymru, i sicrhau fod ysgolion a chlybiau yn cael eu dwyn yn agosach at ei gilydd o fewn y gymuned.

Mae'r holl gynnwys newydd wedi'i ddatblygu drwy ddull o weithredu sy'n rhoi'r cyfranogwr yn gyntaf er mwyn sicrhau bod holl gynhyrchion URC yn darparu ymdeimlad o berthyn, darganfyddiad a chyflawniad.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: ***wrugamelocker.wales/cy***

# CYNLLUN PRENTISIAETHAU UNDEB RYGBI CYMRU

**Rydym yn cynnal prentisiaeth ddeuddeg mis hynod lwyddiannus sy'n galluogi ein pobl ifanc yng Nghymru i fanteisio ar nifer o gyfleoedd gwahanol o fewn y cyfnod hwnnw. Fel arfer mae'r ffenestr ymgeisio am brentisiaethau rhwng Mehefin ac Awst.**

Bydd tudalen mynegi diddordeb yn cael ei chreu cyn bo hir ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â'r garfan newydd ar gyfer 2023. Bydd y rhain yn cael eu rhannu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn y cyfamser, anfonwch neges e-bost i ***wruapprenticeship@wru.wales.***



# TOCYNNAU

**Os oes gennych ymholiadau, ewch i ganolfan gymorth y Clwb ar-lein; *www.wru.wales/clubhelp*, anfonwch e-bost at *clubticketing@wru.wales***



# CYSYLLTIADAU ERAILL

- Ymholiadau cofrestru ar-lein cyffredinol ***regdepartment@wru.wales***
- Ar gyfer pob ymholiad technegol yn ymwneud â system MyWRU cysylltwch â ***mywru@wru.wales***
- Ar gyfer materion disgyblaeth, cysylltwch â ***disciplinarydept@wru.wales***
- Os oes gennych ymholiadau ariannol, megis taliadau Cyllid Cymunedol, treuliau teithio’r Clwb, cysylltwch â Claire McAdam, ***cmcadam@wru.wales***



WRU

# DIOLCH YN FAWR

THIS IS OUR GAME, THIS IS WELSH RUGBY

**DYMA'N GÊM NI, DYMA RYGBI CYMREIG**